

8 Mawrth 2021

Annwyl Ymgeisydd

## **Grant Cymorth i'r Gymraeg: Pecyn Ymgeisio Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2021-22**

### **Diben y Grant a Dyddiadau Allweddol**

Mae'r Grant Cymorth i'r Gymraeg wedi ei gynllunio i gynorthwyo cyrff dyfarnu cydnabyddedig i alluogi dysgwyr i ddilyn cymwysterau rheoleiddiedig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rhagor o fanylion am yr hyn y gellir defnyddio'r arian ar ei gyfer i'w gweld ar dudalen pump o dan [Costau sy'n gymwys ar gyfer y cyllid](#).

Rhaid e-bostio ceisiadau sydd wedi'u cwblhau at [grants@qualificationswales.org](mailto:grants@qualificationswales.org) erbyn **7 Mai 2021**. Ni chaiff unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried.

Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid ar gyfer yr holl gostau cymwys a ysgwyddir rhwng **1 Ebrill 2021** a'r ffenestr hawlio olaf ar **11 Mawrth 2022**.

Mae corff dyfarnu cydnabyddedig sy'n cael cymorth ariannol drwy'r rhaglen hon yn ymrwmo i:

- Sicrhau bod asesiadau cyfrwng Cymraeg ar gael i ganolfannau
- Rhoi cyhoeddusrwydd i argaeledd asesiadau cyfrwng Cymraeg
- Sicrhau ansawdd yr asesu cyfrwng Cymraeg
- Dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd y cymhwyster/cymwysterau.

### **Blaenoriaethau Strategol**

Ar gyfer 2021/22, ein **Blaenoriaeth Gyffredinol** ar gyfer y Grant Cymorth i'r Gymraeg yw cefnogi cymwysterau a gynlluniwyd:

- i'w defnyddio gan ddysgwyr 14-19 oed ar raglenni dysgu llawn amser sydd wedi'u hariannu *a/neu*

- i'w defnyddio ar brentisiaethau a ariennir yn gyhoeddus.

Rydym yn rhagweld defnyddio'r rhan fwyaf o'n cyllid sydd ar gael ar gyfer cymwysterau sy'n dod o fewn y flaenoriaeth gyffredinol hon, fodd bynnag, croesewir ceisiadau am gymwysterau nad ydynt yn dod o fewn y flaenoriaeth hon.

Yn ein barn ni, mae'n well sicrhau bod cymwysterau ar gael i ddysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg o'r adeg y cânt eu haddysgu gyntaf. Mae'r dull hwn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd canolfannau yng Nghymru yn cael eu hannog i fabwysiadu cymwysterau newydd ac i roi cynnig gweithredol a chyfartal i ddysgwyr o'r cychwyn cyntaf. O fewn y Flaenoriaeth Gyffredinol, byddwn felly yn rhoi blaenoriaeth ychwanegol i geisiadau yn y drefn ganlynol:

**Categori 1:** Cymwysterau newydd sydd wedi'u cynllunio i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2021 neu 2022 (gall y rhain ddisodli'r cymwysterau presennol neu beidio).

**Categori 2:** Cymwysterau sy'n cael eu diweddarau i'w haddysgu o fis Medi 2021 neu 2022.

**Categori 3:** Cymwysterau sydd wedi cael eu diweddarau neu eu hadolygu'n ddiweddar a chanddynt ddyddiad gorffen gweithredol ar ôl Awst 2023 (neu y bydd y corff dyfarnu yn gwneud cais at y diben hwnnw ar eu cyfer).

**Categori 4:** Cymwysterau hŷn a/neu gymwysterau sy'n tynnu tua therfyn eu cylch oes.

**Noder: Os yw cyrff dyfarnu am wneud cais am gyllid ar gyfer cymwysterau sy'n perthyn i fwy nag un o'r categorïau uchod, mae arnom angen ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob categori. Rydym hefyd angen cais ar wahân am gymwysterau sydd y tu allan i'r Flaenoriaeth Gyffredinol.**

Wrth sgorio ceisiadau, bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn ystyried:

- gwybodaeth a geir yn uniongyrchol, neu drwy gyrff cynrychioliadol, gan ganolfannau yng Nghymru ynglŷn â'u galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- tystiolaeth gan gyflogwyr bod y cymhwyster yn darparu llwybr mynediad i, neu ddatblygiad o fewn cyflogaeth;
- meysydd blaenoriaeth cenedlaethol Llywodraeth Cymru;
- tystiolaeth ynghylch sut y bydd y corff dyfarnu yn sicrhau ansawdd y gweithgaredd a ddarperir gan y cyllid;
- tystiolaeth o gynaliadwyedd yr asesu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y cymhwyster yn y tymor hwy (ar ôl cyfnod y cyllido).

Unwaith y bydd grant wedi'i ddyfarnu, un o amodau'r taliad fydd bod cais wedi'i wneud ar gyfer dyddiad gorffen priodol y dynodiad a'i fod wedi'i gymeradwyo. Rydym hefyd yn disgwyl i adran iaith QiW gael ei diweddarau, fel y bo'n briodol.

Dylai ymgeiswyr ystyried y blaenoriaethau a amlinellir uchod wrth ymateb i **2a. Y rhesymeg dros wneud cais am y grant hwn.**

## Y Broses o Gyflwyno Cais

Mae rhaid pob ymgeisydd gyflwyno **ffurflen gais wedi'i chwblhau a thaenlen gwybodaeth atodol** erbyn **dydd Gwener 7 Mai 2021**.

Gellir dod o hyd i'r ffurflen gais yn y pecyn cais ac mae wedi'i rhannu'n dair adran:

1. Manylion cyswllt ar gyfer y sefydliad
2. Disgrifio eich prosesau ar gyfer cefnogi cymwysterau cyfrwng Cymraeg
3. Datganiad a phroffil talu

Ni chaiff pob rhan o'r ffurflen gais ei sgorio ond rhaid cwblhau pob rhan. Gallai methu â darparu ymatebion digon manwl olygu na fydd eich cais yn llwyddiannus.

### Sgorio'ch cais

Gofynnir i chi hefyd roi manylion ynghylch pam mae arnoch angen y cyllid grant o dan **2a. Y rhesymeg dros wneud cais am y grant hwn**. Nid chaiff y rhan hon o'r cais ei sgorio ond mae'n ofynnol.

**Cam 1:** Bydd ceisiadau'n cael eu blaenoriaethu'n gyntaf i weld a ydynt yn bodloni'r **Flaenoriaeth Gyffredinol** uchod.

**Cam 2:** P'un a yw'r cais yn bodloni'r flaenoriaeth gyffredinol ai peidio, caiff ei sgorio yn ôl y meini prawf isod a wedi'u rhestru yn ôl ei sgôr o fewn y gofynion blaenoriaethu. Defnyddir hwn wedyn i roi'r ceisiadau yn nhrefn eu blaenoriaeth i gael cyllid o fewn pob grŵp blaenoriaethu. Rhaid i bob maen prawf sgorio 2 neu'n uwch, a rhaid i'r cais gael sgôr o 9 neu'n uwch i gael ei ystyried ar gyfer ariannu yn y lle cyntaf.

Bydd yr agweddau canlynol ar y cais yn cael eu sgorio a'u pwysoli:

Meini Prawf	Amlinelliad	Pwysoliad
2b. Sicrhau Ansawdd	Dylai cyrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth o'u gallu i sicrhau ansawdd eu gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r cyllid.	25%

2c. Cynaliadwyedd	Dylai cyrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth o sut y maent yn bwriadu cefnogi'r cymhwyster/cymwysterau yn y tymor hir, y tu hwnt i oes darpariaeth y cyllid.	20%
2d. Galw a buddion	Dylai cyrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth yn dangos lefel y galw/y galw tebygol am gymhwyster/gymwysterau a'r buddion bwriadedig i ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill (fel cyflogwyr) yn sgil y ddarpariaeth awgrymedig.	40%
2e. Polisi	Bydd rhaid i gyrrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth i ddangos sut mae eu cynnig yn gyson â pholisi cenedlaethol yng Nghymru boed drwy addysg, y Gymraeg, polisiau economaidd (gan gynnwys sectorau â blaenoriaeth) a/neu bolisiau eraill.	15%

Bydd pob maen prawf yn cael ei farcio fel a ganlyn-

Sgôr	Disgrifiad
1.	Nid yw'n ymdrin â'r maen prawf.
2.	Mae'n ymdrin â'r rhan fwyaf o agweddau ar y maen prawf ond heb ddigon o fanylder i wneud penderfyniad cadarn.
3.	Mae'n ymdrin â'r maen prawf yn drylwyr mewn digon o fanylder i wneud penderfyniad cadarn.
4.	Mae'n ymdrin â'r maen prawf yn drylwyr, gyda thystiolaeth gref, gymhellol.

Mae'r daenlen **gwybodaeth atodol** yn ddogfen ar wahân a dylid gallu dod o hyd iddi gyda'r llythyr a'r ffurflen gais yma, cysylltwch â [grants@qualificationswales.org](mailto:grants@qualificationswales.org) os oes angen copi arnoch.

Mae Cymwysterau Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i'r manylion canlynol, gael eu hamlinellu yn y daenlen Gwybodaeth Atodol, lle bo hynny'n berthnasol

- **Enw'r cymhwyster** – teitl llawn y cymhwyster.
- **Enw'r uned (lle bo'n berthnasol)** – teitl yr uned unigol os ydych chi'n gweithio ar y lefel hon.
- **Dyddiad gorffen gweithredol** – y dyddiad y byddwch chi'n gorffen cofrestru dysgwyr newydd ar y cymhwyster hwn.

- **Dyddiad gorffen ardystio** – y dyddiad y bydd angen i'r holl ddysgwyr sy'n weddill gwblhau'r cymhwyster.
- **Cod QiW** – y cod a roddir i'r cymhwyster gan Cymwysterau Cymru (os yw'n gymwys).
- **Cod QAN** – y cod a roddir i'r cymhwyster gan Ofqual (os yw'r cymhwyster yn cael ei reoleiddio yn Lloegr).
- **Eitem(au) i'w cyflenwi yn Gymraeg** – er enghraifft y fanyleb, manylion yr uned, asesiadau.
- **Dadansoddiad o'r costau** fesul eitem - ar gyfer unrhyw gostau cyfieithu, nodwch y gost fesul 1,000 gair.
- **Nifer y dysgwyr** – mae Cymwysterau Cymru yn gofyn am ddealltwriaeth o hyn yn **Adran 2.d Galw** ond efallai y byddwch am ddarparu mwy o fanylion yn y daenlen yn ogystal â'r naratif.
- **Costau Staff** – disgrifiad o gostau staff posibl neu'r costau staff a ysgwyddwyd yn ychwanegol at unrhyw gostau cyfrwng Saesneg.
- **Ariannu blaenorol** - nodwch a yw eich sefydliad wedi derbyn cyllid ar gyfer cymorth cyfrwng Gymraeg o'r blaen (naill ai drwy CC neu Lywodraeth Cymru).
- **Amserlen ar gyfer y gweithgareddau cynlluniedig** – gallai hyn gynnwys cyfathrebu â chyfieithwyr a therfynau amser cytunedig ar gyfer y gwaith hwn, ynghyd â'ch terfynau amser mewnol ar gyfer cyhoeddi'r deunyddiau a'r amserlen farchnata tymor hwy ar gyfer y cymhwyster/cymwysterau. Bydd Cymwysterau Cymru'n defnyddio'r wybodaeth hon i gael trafodaethau parhaus gyda chi i gytuno ar ddyddiadau hawlio priodol sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau allweddol. Gallwch ddarparu diagram, rhestr o ddyddiadau allweddol neu naratif. Mae Cymwysterau Cymru yn deall y gallai unrhyw fanylion a gyflwynir newid.
- **Gwybodaeth Ychwanegol** – os hoffai eich sefydliad ddarparu unrhyw dystiolaeth ategol arall, ychwanegwch hyn at yr adran gwybodaeth ychwanegol a ddarperir.

### Costau sy'n gymwys ar gyfer y cyllid

Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer y canlynol:

- Dim ond gan gyrrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod gan Cymwysterau Cymru ac ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru;
- Cyfieithu deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau'n uniongyrchol: manylebau, deunyddiau asesu enghreifftiol a chanllawiau o unrhyw fath;
- Ar gyfer costau gweinyddu, gan gynnwys cysodi, sy'n fwy na'r costau cyfrwng Saesneg cyfatebol ac a allai gynnwys costau staff uniongyrchol – swyddogion golygyddol, clercod pwnc, gweithredwyr prosesyddion geiriau ac ati;

- Ar gyfer costau argraffu sy'n fwy na'r costau cyfrwng Saesneg cyfatebol. Er enghraifft, os yw argraffu 500 o bapurau arholiad cyfrwng Cymraeg yn costio £x ac y byddai ychwanegu 500 at yr argraffiad cyfrwng Saesneg yn costio £y, bydd Cymwysterau Cymru yn fodlon cefnogi'r costau ychwanegol a ysgwyddir wrth argraffu'r papurau cyfrwng Cymraeg h.y. £x-£y.

### **Costau cyfieithu**

Yn unol â fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ad-dalu costau cyfieithu hyd at uchafswm o £90 gan gynnwys TAW fesul 1,000 gair.

### **Ar ôl cyflwyno'r cais**

Caiff pob cais sydd wedi'i gwblhau'n llawn ei adolygu'n fewnol gan Cymwysterau Cymru yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd ac, os bydd angen, gall Cymwysterau Cymru gysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth.

Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd Cymwysterau Cymru'n anfon Llythyr Dyfarnu Grant bydd rhaid gael ei lofnodi a'i ddychwelyd er mwyn dechrau'r broses. Bydd y Llythyr Dyfarnu Grant yn amlinellu cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd, amodau'r grant a'r dyddiadau allweddol ynghyd â'r dystiolaeth a fydd yn ofynnol ar gyfer unrhyw hawliad.

Os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd Cymwysterau Cymru'n rhoi adborth ysgrifenedig. Gall y corff dyfarnu ofyn am ragor o fanylion os bydd angen.

### **Hawlio'r cyllid**

Rhaid hawlio'r cyllid yn unol â'r proffil hawlio a ddarperir yn y Llythyr Dyfarnu Grant a rhaid darparu'r dystiolaeth ganlynol:

- Anfoneb(au) a gyflwynwyd mewn perthynas â phob ffenestr hawlio;
- Copïau o unrhyw anfonebau cysylltiedig yn ymwneud â chynhyrchu/gweinyddu gwahanol waith/weithiau megis ffioedd cyfieithwyr, taflenni amser ar gyfer costau staff uniongyrchol a sicrhau ansawdd cyfieithiadau ac ati;
- Enghreifftiau o ddogfennau wedi'u cyfieithu yn ymwneud â'r cymwysterau a restrwyd yn y cais fel tystiolaeth ategol.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus roi diweddariadau ar gynnydd i reolwr grantiau Cymwysterau Cymru a rhannu tystiolaeth o'r gwaith sy'n cael ei gwblhau. Fel arfer, bydd hyn yn cael ei wneud drwy alwadau cynadledda. Bydd hawlwr yn cael eu hannog i gyflwyno hawliadau drwy gydol y flwyddyn cyn gynted ag y cwblheir gwaith, yn hytrach nag aros nes y dyddiad cau terfynol ar gyfer hawlio.

Gall methu â hawlio erbyn y dyddiad a/neu ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arwain at golli cyllid.

### **Codi tâl am TAW**

Ni chodir TAW ar eich cais. Os yw eich costau ar gyfer gwaith perthnasol a gwblheir yn cynnwys elfennau TAW anadenilladwy (a bod gennych anfoneb yn dystiolaeth ohonynt), yna gellir cynnwys hyn yng nghyfanswm y grant y gwneir cais amdano.

### **Derbynnydd Grant Newydd**

Os mai dyma'r tro cyntaf i chi gael y cyllid hwn gan Cymwysterau Cymru, yna mae'n debygol y bydd angen i chi gwblhau ffurflen derbynnydd grant newydd er mwyn i ni allu prosesu eich hawliadau cymeradwy. Os nad ydych chi'n siŵr a oes angen i chi lenwi'r ffurflen derbynnydd grant newydd, cysylltwch â [grants@qualificationswales.org](mailto:grants@qualificationswales.org).

### **Cymwysterau Cymru – Cysylltiadau Allweddol**


**Rheolwr y Grant:** Honor Taylor

**Deiliad y Gyllideb:** Daniel Tromans

**Noddwr y Grant:** Cassy Taylor

Anfonwch eich ceisiadau wedi'u cwblhau at [grants@qualificationswales.org](mailto:grants@qualificationswales.org). Os hoffech chi drafod unrhyw ymholiadau ynghylch eich cais, cysylltwch â rheolwr y grant ar [honor.taylor@qualificationswales.org](mailto:honor.taylor@qualificationswales.org).

Dymuniadau gorau



**Cassy Taylor**

Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cymwysterau, Cymwysterau Cymru